Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Adolygiad pellach o'r eithriadau i'r rheoliadau ynghylch uchafswm hyd cychod pysgota yn y parth 0-6nm** |
| **DYDDIAD** | **9 Medi 2013** |
| **GAN** | **Alun Davies AC, Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd** |

Heddiw rwyf wedi lansio ymgynghoriad pellach ynghylch y bwriad i ddileu'r hawliau mynediad hanesyddol.

http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/review-of-max-fishing-vessels-within-0-6nm/?lang=cy

Mae rheoliadau penodol sy'n gwahardd cychod o faint neu gapasiti penodol rhag pysgota yn y parth 0-6 milltir forol o amgylch Cymru. Ar hyn o bryd, mae eithriadau i'r darpariaethau hynny sy'n caniatáu i gychod dros y cyfyngiadau maint neu gapasiti penodol barhau i bysgota yn yr ardaloedd hynny. Mae'r eithriadau hynny wedi dod i'w hadnabod fel hawliau mynediad hanesyddol neu hawliau tad-cu.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar gynigion i ddileu hawliau mynediad hanesyddol rhwng Tachwedd 2011 a Chwefror 2012.

Roedd mwyafrif yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyntaf yn cefnogi'r cynigion. Fodd bynnag, mynegwyd nifer o bryderon a ysgogodd ddadansoddiad pellach, a deilliodd nifer o faterion cymhleth o'r broses honno. O ganlyniad, penderfynais fod angen cynnal cyfnod pellach o ymgynghori er mwyn sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru'r ddealltwriaeth lawnaf bosibl o'r sefyllfa bresennol ac effeithiau posibl y bwriad i ddileu'r hawliau mynediad hanesyddol hyn.

Mae'r ddogfen ymgynghori newydd yn gofyn am sylwadau ynghylch nodau'r bwriad i ddileu'r hawliau hyn, y dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r cynnig hwn a'r effaith bosibl y gallai'r cynigion ei chael ar unigolion a busnesau.

Er gwybodaeth, dyma nodau'r bwriad i ddileu'r hawliau mynediad hanesyddol:

- sicrhau cydraddoldeb o ran rheoleiddio cychod pysgota sy'n gweithredu yng Nghymru;
- diogelu amgylchedd morol Cymru;
- cynnal stociau pysgod dyfroedd Cymru.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dechrau heddiw ac yn dod i ben ar 1 Rhagfyr 2013. Rwyf yn gobeithio gallu dod i benderfyniad ynghylch sut i symud ymlaen gyda'r mater hwn cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.